**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 31 Gorffennaf 2008 |
| **TEITL** | Rhybudd o gynnig: uwchraddio gallu Rheilffordd Dyffryn Conwy i gludo nwyddau. |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth cefndir i Aelodau’r Cyngor |
| **AWDUR** | Sioned E. Williams,<br>Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y Cynghorydd Dewi Lewis |

## 01. CEFNDIR

01.1. Yn 2001, mynegwyd dymuniad gan berchnogion Chwareli Penrhyn a Ffestiniog ar y pryd - McAlpine Slate Ltd - i fanteisio ar y gyfle yn deillio o dreth newydd ar agregau primaidd drwy gludo llechi gwastraff wedi eu gwasgu i farchnadoedd Manceinion, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Llundain.

01.2 Fe allai'r cwmni fod wedi mynd ati yn syth i gynhyrchu'r deunydd yn Chwareli Penrhyn a Ffestiniog a'i gludo gan ddefnyddio, ar gyfartaledd, 200 o loriau chwarel y dydd. Fodd bynnag, roedd y cwmni yn awyddus i ganolbwyntio cynhyrchu'r deunydd yn Chwarel Ffestiniog a'i gludo o'r ardal ar drenau nwyddau gan ddatblygu datblygu safle cludo nwyddau ym Mlaenau Ffestiniog ac uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy i gynnal y defnydd ychwanegol.

01.3 Bu swyddogion y Cyngor mewn partneriaeth â swyddogion Awdurdod Datblygu Cymru yn cefnogi datblygiad y cynllun - ac yn 2003 derbyniwyd cefnogaeth Bwrdd y Cyngor a Phartneriaeth Economaidd Gwynedd i egwyddor y prosiect. Bryd hynny, roedd yr amcangyfrif o gost y cynllun oddeutu £46M gyda’r canlyniadau canlynol yn ddisgwyliedig:

- 48 o swyddi llawn amser net yng Ngwynedd a Chonwy pan gynhyrchir 1 miliwn tunnell y flwyddyn o lechi gwastraff wedi ei gwasgu (yn cynyddu i 88 o swyddi net pan gynhyrchir 2 miliwn tunnell)
- 81 o swyddi wedi eu gwarchod yn chwareli yng Ngwynedd

01.4 Derbyniodd cwmni McAlpine Slate gynnig o nawdd, mewn egwyddor, i ddatblygu safle cludo nwyddau ym Mlaenau Ffestiniog. Ymchwiliwyd ymhellach i gost uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy i gynyddu ei allu i gludo nwyddau ond roedd amrywiaeth mawr rhwng yr amcangyfrifon a gynhyrchwyd gan berchennog y Rheilffordd ac ymgynghorwyr eraill (£10M i £45M). Yng ngoleuni amcangyfrifon Network Rail daeth y Cynulliad i’r casgliad ar y pryd fod cost uwchraddio’r Rheilffordd yn rhy uchel ond derbyniwyd cytundeb i ymchwilio ymhellach i’r gost yn 2006.

01.5 Yn 2007, fe werthwyd Chwarel Ffestiniog (a Chwarel Penrhyn, Bethesda) gan gwmni McAlpine Slate i gwmni Rigcycle Ltd (yn masnachu dan yr enw Welsh//Slate)

## 02. SEFYLLFA BRESENNOL

02.1 Mae swyddogion y Cyngor yn parhau i ystyried y cynllun yn un allai ddod a manteision i gymuned Ffestiniog a'r ardal yn ehangach, drwy, er enghraifft:

- gynnig cyfleoedd a swyddi newydd yn y sectorau chwarela, peirianneg a'r economi leol yn ehangach;
- cynnal Rheilffordd Dyffryn Conwy yn llwybr trafnidiaeth hyfyw;
- datblygu statws Blaenau Ffestiniog fel cyfnewidfa trafnidiaeth a chadw'r rheilffordd fel dull posib o gludo gwastraff o safle Atomfa Trawsfynydd yn y dyfodol

02.2 Mae swyddogion ac Aelodau'r Cyngor wedi gweithio'n gyson i gynnal deialog gydag Adran Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal sylw ar y posibilrwydd o wireddu'r cynllun gan sicrhau fod cyfiawnhad strategol y prosiect yn cael ei gynnwys yn nogfennau strategol megis Cynllun Gofodol Cymru, Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd a Chanolbarth Cymru. Dylid nodi hefyd fod y cynllun wedi ei gynnwys yn Strategaeth Defnydd Llwybrau Cymru drafft Network Rail.

02.3 Tynnir sylw Aelodau yn benodol fod y cynllun hefyd wedi ei adnabod yn brosiect blaenoriaeth strategol gan y Cyngor ar gyfer y Rhaglen Cydgyfeirio (y rhaglen nawdd Ewropeaidd mwyaf yng Nghymru) ac fe gefnogwyd y bwriad yma gan y Pwyllgor Craffu Datblygu ar 26 Chwefror 2008. Bwriedir parhau i gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliad eraill yn y cynllun i wireddu'r prosiect.

**Sioned E. Williams**
**Pennaeth Gwasanaeth**
**SEW/**